

# Y TÎM O AMGYLCH Y TEULU LLYTHYR NEWYDDION GWANWYN/HAF 2018



## Gwefan Newydd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn mynd yn FYW



Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd  
Sir Gaerfyrddin  
Family Information Service  
Carmarthenshire

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin yn llawn cyffro ei fod yn lansio'i wefan newydd ar ôl ei datblygu am 6 mis. Bydd yna lansiad tawel ar gyfer y wefan newydd y mis hwn. Gellir defnyddio'r wefan yn llawn ar ddyfeisiau symudol a llechi ac mae'n fwy rhyngweithiol ac yn haws ei defnyddio er mwyn diwallu anghenion teuluoedd Sir Gaerfyrddin. Cadwch lygad am fideos hyrwyddo'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a fydd yn cael eu hychwanegu at y wefan newydd cyn bo hir. Mae gan y Tîm o Amgylch y Teulu ei adran ei hun ar wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd; sy'n cynnwys tudalennau ar gyfer rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Ar gyfer gweithwyr allweddol Tîm o Amgylch y Teulu bydd yna dudalen adnoddau (y gellir mewngofnodi iddi drwy ddefnyddio cyfrinair) a thudalen hyfforddiant â manylion yr holl gyrsiau hyfforddiant presennol. Ewch i'r wefan newydd [www.fis.sirgar.gov.uk](http://www.fis.sirgar.gov.uk)



### CYDGYSYLLTWYR NEWYDD Y TÎM O AMGYLCH Y TEULU:

KELLY WOOD:

*"Ymunais â'r tîm fel cydgysylltydd TAF yn ddiweddar. Cyn dechrau yn y rôl hon, bûm yn gweithio fel Swyddog Tai i'r Awdurdod am fwy na 5 mlynedd.*

*Bûm yn gweithio'n agos gyda'r tenantiaid gan eu galluogi i gynnal eu tenantiaethau a datrys materion megis ôl-ddyledion rhent, newidiadau i fudd-daliadau ac ymchwilio i ymddygiad gwrthgymdeithasol.*

*Sefydlwyd perthynas waith effeithiol gyda phartneriaid megis yr heddlu, Tai Teulu a Gwalia ac edrychaf ymlaen at feithrin y perthnasoedd hyn ymhellach.*

*Edrychaf ymlaen at ddefnyddio'r wybodaeth a gefais yn ystod fy ngyrfa yn yr adran Tai er mwyn cynorthwyo teuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau TAF."*

GAYNOR WILLIAMS:

Ymunodd Gaynor â'r tîm ar 16 Ebrill 2018. Mae hi wedi bod yn gweithio fel Swyddog ar Ddyletswydd yn y Tîm Atgyfeirio Canolog yn ystod y 9 mlynedd diwethaf.

Cyn hynny, bu Gaynor yn gweithio fel Ysgrifennydd Cofnodion Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant a Chynorthwydd Llesiant i'r Tîm Camau Nesaf.

Yn ogystal â'r Awdurdod Lleol, mae hi wedi gweithio fel Cynorthwydd Milfeddygol ac Ysgrifennydd Personol mewn cwmni cyfreithiol ac felly mae ganddi brofiad helaeth o ymdrin ag aelodau'r cyhoedd. Mae Gaynor yn edrych ymlaen at ddechrau ei rôl newydd yn y tîm a'r heriau newydd y bydd yn eu cyflwyno.

## GWYBODAETH GAN HEFIN AM Y TÎM GWAITH IEUENCTID ÔL-16:

Nodi a chynorthwyo pobl ifanc (16-25) oed sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rheiny sy'n NEET, yn gadael gofal, yn hysbys i'r Tîm Cyfiawnder Ieuencid, yn cael problemau o ran llety neu'r rhai y mae angen cymorth Tîm o Amgylch y Teulu arnynt.

Gweithio gyda phobl ifanc agored i niwed yn unigol ac mewn grŵp.

Darparu amrywiaeth o gymorth personol i deuluoedd a phobl ifanc er mwyn mynd i'r afael â nifer o rwystrau o ran cael addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Galluogi pobl i symud ymlaen i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a'u cynorthwyo.

Sesiynau galw heibio sy'n agored i bobl ifanc (16-25) oed ar draws y sir:

- **Caerfyrddin: Dydd Mawrth, Prosiect Ieuencid Dr.Mz 12.00pm-4.00pm**
- **Llanelli: Dydd Mercher yng Nghanolfan Ieuencid y Bwlch 2.00pm-4.00pm**
- **Rhydaman: Dydd Mercher, Prosiect Ieuencid Streets 1.00pm-4.00pm**

Mae'r tîm yn gweithio ar draws Sir Gaerfyrddin mewn ystod o leoliadau lle mae mynediad at bobl ifanc e.e. Canolfannau Ieuencid, Canolfannau Gwaith a Lleoliadau'r Sector Gwirfoddol.

ATGYFEIRIADAU I: [NEETKIT@sirgar.gov.uk](mailto:NEETKIT@sirgar.gov.uk)

RHIF FFÔN Y BRIF SWYDDFA: 01554 744322



## HYFFORDDIANT SYSTEMIG

Ym mis Mawrth trefnwyd dau sesiwn hyfforddiant 3 diwrnod gan y Tîm o Amgylch y Teulu er mwyn cyflwyno dulliau meddwl systemig i'r gweithwyr allweddol. Roedd y gwerthusiad o'r hyfforddiant yn gadarnhaol iawn a nodwyd nifer o wahanol themâu i'w hystyried.

Diolch yn fawr i John Woolner am yr hyfforddiant. Byddwn yn datblygu'r hyfforddiant yn y gweithdai sydd i ddod. Y cyntaf o'r rheiny yw 10 Ebrill 2018, 9.15am i 12.30pm ym Mharc Dewi Sant. Bydd gweithdai eraill yn cael eu cynnal bob yn ail fis. Cysylltwch â Carys i gael mwy o fanylion drwy ffonio 01267 246555 neu e-bostio: [carys@sirgar.gov.uk](mailto:carys@sirgar.gov.uk)

*"Hoffwn i ddiolch i bawb am yr hyfforddiant rhagorol yr wythnos hon. Dysgais i gymaint y byddaf yn ei ddefnyddio wrth weithio. Rwyf yn fwy chwilfrydig, yn sicr."*

**SIAN DENMAN - GWEITHREDU DROS BLANT**

## Dyddiadau ar gyfer Gweithdai Systemig

10/04/2018	Ystafell 5, Parc Dewi Sant	9:00am – 1:00pm
12/06/2018	Ystafell 5, Parc Dewi Sant	9:00am – 1:00pm
07/08/2018	Ystafell 5, Parc Dewi Sant	9:00am – 1:00pm
16/10/2018	Ystafell 8, Parc Dewi Sant	9:00am – 1:00pm
11/12/2018	Ystafell 5, Parc Dewi Sant	9:00am – 1:00pm

## Gwaith Uniongyrchol/Ymyriadau ar gyfer ymarferwyr

08/05/2018	Ystafell 6, Parc Dewi Sant	9:00am – 1:00pm
10/07/2018	Ystafell 5, Parc Dewi Sant	9:00am – 1:00pm
18/09/2018	Ystafell 5, Parc Dewi Sant	9:00am – 1:00pm
13/11/2018	Ystafell 5, Parc Dewi Sant	9:00am – 1:00pm

## 10 O ganllawiau ymyrryd

Mae'r 'Rhaglen Gobaith ar Gyfer Plant' yn gyfres o adnoddau cynhwysfawr ar gyfer asesu, dadansoddi ac ymyrryd. Mae'n cael ei seilio ar ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ag amcanion clir. Ysgrifennwyd gan Dîm Y Plentyn a'r Teulu yng Nghanolfan Tavistock, Llundain. Mae'n gyfres o ganllawiau gan gynnwys taYflennu gwaith a dulliau cam wrth gam i ymyrraeth.

Bwriad yr adnoddau yw galluogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd a'u hymarferwyr i weithio gyda'i gilydd, gan ddatblygu cryfder a goresgyn anawsterau.

Gwelir dystiolaeth o newid llwyddiannus drwy weld lesiant pobl ifanc a phlant yn gwella.

Dim ond pan fydd o leiaf un gweithiwr allweddol mewn asiantaeth wedi cwblhau'r hyfforddiant y bydd yr asiantaeth yn cael cyfres o ganllawiau i'w defnyddio gyda theuluoedd. Cynhaliwyd yr hyfforddiant nesaf ar 10fed Orffennaf 2018.

- Cyflwyniad a Throsolwg
- Ymgysylltu a phennu nodau
- Newid rhianta camdriniol ac esgeulus
- Hyrwyddo iechyd, datblygiad a llesiant plant a phobl ifanc
- Hyrwyddo ymlyniad, bod ar yr un donfedd o ran ymatebolrwydd, a pherthynas emosiynol gadarnhaol gydag eraill
- Hyrwyddo rhianta cadarnhaol
- Gweithio gyda phlant a phobl ifanc: Mynd i'r afael ag ymatebion emosiynol a thrawmatig
- Gweithio gyda phlant a phobl ifanc: Mynd i'r afael ag ymddygiad sy'n tarfu ar eraill
- Gweithio gyda theuluoedd
- Gwaith yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol

Bydd y canllawiau hyn yn cael eu cysylltu â'r datblygiadau newydd o ran y Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd.

(Os oes gennych unrhyw wybodaeth/newyddion yr hoffech chi eu cynnwys yn llythyr newyddion TAF, cysylltwch â Linda drwy ffonio 01267 246555 neu e-bostio: [lewilliams@sirgar.gov.uk](mailto:lewilliams@sirgar.gov.uk))